**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Vikki Howells AS
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
[ar e-bost]

Dyddiad | Date: 23 Tachwedd 2022

Pwnc | Subject: Hyfforddiant a Grwpiau Trawsbleidiol

Annwyl Vikki,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 25 Hydref, ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y ddau bwnc y gwnaethoch eu codi gyda mi, sef Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a Grwpiau Trawsbleidiol.

Fel y gwyddoch, bu'r Grŵp Cyswllt Gwleidyddol yn trafod hyfforddiant yn eu cyfarfod ar 14 Tachwedd. Derbyniodd y Grŵp argymhelliad y Pwyllgor Safonau y dylid trefnu mwy o hyfforddiant i'r Aelodau ar y Cod Ymddygiad a dogfennau cysylltiedig amrywiol. Ers hynny, mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda'r Penaethiaid Staff i drafod y ffordd orau o gynnal sesiynau o'r fath. Penderfynwyd cynnal un sesiwn ar gyfer pob grŵp ac rydym yn disgwyl i hyn ddigwydd ddechrau mis Ionawr.

Fe wnaethoch hefyd ysgrifennu ataf ynglŷn â gwaith y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) ar Grwpiau Trawsbleidiol, fel rhan o'ch ymchwiliad i lobïo, a dywedais y byddwn yn ysgrifennu eto ar ôl cael mwy o gyngor ar hyn.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried, yn ei Reolau ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol, nad yw Grwpiau Trawsbleidiol yn grwpiau ffurfiol o'r Senedd sy'n ddarostyngedig i Reolau Sefydlog y Senedd, a bod ganddynt gydnabyddiaeth eang am fod yn rhan werthfawr o'r broses ddemocrataidd. Er nad oes ganddynt rôl ffurfiol mewn datblygu polisi, mae Grwpiau Trawsbleidiol yn cynnig fforwm i Aelodau o'r Senedd o wahanol bleidiau ddod ynghyd i drafod ac ystyried meysydd sydd o ddiddordeb cyffredinol iddynt. Wrth gwrs, mae cymryd rhan mewn grwpiau o'r fath yn fater i bob Aelod unigol.

Mae'r Rheolau ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol yn darparu'r paramedrau y mae pob Grŵp Trawsbleidiol yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys nodi'r defnydd a ganiateir o gyfleusterau ac adnoddau'r Senedd, ac nad oes gan y Senedd gyllideb i dalu am gostau rhedeg Grwpiau Trawsbleidiol ac eithrio'r darpariaethau y manylir arnynt yn y Rheolau hynny. Mae'r ffactorau hyn yn sail i'r cyngor hanesyddol a ddarparwyd i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau o ran pa mor dderbyniol yw hawliadau y dywedir eu bod yn gostau sy'n ymwneud â chyfarfodydd a gweithgareddau Grwpiau Trawsbleidiol.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Fel y gwyddoch rwy'n gwybod, aeth y Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd drwy broses ymgynghori lawn cyn cael eu cyhoeddi'n gynharach yn yr haf. Mae'r rheolau a ddiweddarwyd yn glir iawn a bwriad y diffiniad o "Ddyletswyddau Aelodau" yw bod yn eithaf eang, sy'n golygu "gweithgaredd mewn perthynas â busnes y Senedd a busnes etholaethol neu ranbarthol, ble bynnag yr ymgymerir ag ef, yn rhinwedd swydd gyhoeddus Aelod o'r Senedd".


Gan gydnabod bod Aelodau'n ymgymryd â'u rolau mewn nifer o wahanol ffyrdd, rwy'n hyderus nad yw'r diffiniad hwn yn atal hawliadau rhag cael eu gwneud ar gyfer gweithgareddau sy'n digwydd y tu allan i'r Cyfarfod Llawn neu gyfarfodydd pwyllgor. Ar yr amod bod diben y gweithgaredd yn dod o fewn yr hyn sy'n angenrheidiol i Aelod ymgymryd â'i ddyletswyddau, mae costau sy'n dod o dan y Penderfyniad yn adferadwy.

Y Bwrdd Taliadau sy'n penderfynu ar y dibenion y mae'n darparu lwfansau ar eu cyfer, y gall Aelodau hawlio ohonynt, a sut y disgrifir y rheini. Mater i Aelodau unigol yw penderfynu sut i gyflawni eu dyletswyddau, a gallant wneud hawliadau yn unol â'r Penderfyniad lle mae hynny'n berthnasol. Credaf fod geiriad presennol y Penderfyniad yn golygu bod y ffaith y gall gweithgaredd penodol ddod o dan nawdd Grŵp Trawsbleidiol yn gysylltiedig â'r cwestiwn ynghylch a ellir gwneud yr hawliad ai peidio. Gall fod sefyllfa lle mae pwnc y Grŵp Trawsbleidiol yn un sy'n arbennig o berthnasol i etholaeth neu ranbarth yr Aelod, neu gallai'r Grŵp Trawsbleidiol gynnwys materion sydd (neu a all fod yn gyfreithlon) yn cael eu trafod gan y Senedd. Mater i bob Aelod yw barnu a yw gweithgaredd y Grŵp Trawsbleidiol yn rhan angenrheidiol o'i ddyletswyddau, ac os felly gallai hawliad fod yn dderbyniadwy.

Byddwn yn hapus i rannu'r dehongliad a nodir uchod gyda'r Bwrdd Taliadau, ac yn y cyfamser bydd y cyngor hwn yn sail i ystyriaethau'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau o ran pa mor dderbyniol yw hawliadau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a gweithgareddau Grwpiau Trawsbleidiol wrth symud ymlaen.

Wrth adrodd ar eich ymchwiliad presennol, efallai yr hoffai'r Pwyllgor ei gwneud yn glir bod y darpariaethau a nodir yn y Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd yn nodi'r defnydd a ganiateir o adnoddau o gyllidebau gweithredol Comisiwn y Senedd. Nid ydynt yn gwahardd gwneud hawliadau derbyniadwy o lwfansau a ddarperir yn y Penderfyniad lle mae'r Aelodau'n ymgymryd â gweithgareddau er mwyn cyflawni eu dyletswyddau.

Yn gywir,



**Manon Antoniazzi**

**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.